## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU - DYDD MERCHER, 6 TACHWEDD 2019 DYDD MERCHER, 6 TACHWEDD 2019**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: H. TROLLOPE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: J. Millard (Is-gadeirydd)
D. Bevan
M. Cook
C. Meredith
J. C. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
S. Thomas
T. Baxter
A. Williams

A: Lynette Jones (Swyddog)
Lynn Phillips (Swyddog)
Gavin Metheringham (Swyddog)
Michelle Jones (Swyddog)
Liz Thomas (Swyddog)

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. A. Davies a J. Holt.<br><br>**PROFEDIGAETH**<br><br>Gyda thristwch yr hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau am farwolaeth Phil Hackling, cyn weithiwr i Gyngor Blaenau Gwent yn y Gwasanaeth Tai. Safodd aelodau a chafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **GWASANAETHAU CYFLAWNI ADDYSG (EAS), ADRODDIAD GWERTH AM ARIAN, BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a'r Cyfarwyddwr - Adnoddau, Busnes a Llywodraethiant (EAS) a gyflwynodd yr adroddiad yn disgrifio deilliannau adroddiad allanol ar werth am arian y gwasanaeth rhanbarthol yn 2018/19.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at gasgliad yr ymgynghorwyr allanol a theimlai fod angen sicrwydd o ymdrech ar y cyd gan y Pwyllgor Gweithredol ac Aelodau Craffu, yr EAS ac ysgolion i hybu gwelliannau pellach er mwyn cyflawni'r deilliannau addysgol a ddymunir. Mae pawb yn gyfrifol ac yn atebol. Cynigiodd yr Aelod Gweithredol Addysg lefel o sicrwydd a chadarnhaodd y defnyddir dull gweithredu ar y cyd.<br><br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg enghreifftiau o welliannau perfformiad tebyg i iaith a llenyddiaeth ar gyfer disgyblion 7 oed, graddau A* a lefel 6 Saesneg. Mae cydweithio mewn ffordd holistig wedi dangos gwelliannau clir gyda Chynllun Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth. Mae ystod o wasanaethau yn ymroddedig i gydweithio a chodi uchelgais disgyblion.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw'r darlun sy'n dod i'r amlwg o Flaenau Gwent yn cael ei adlewyrchu ar draws holl ranbarth EAS a theimlai fod angen mynd i'r afael â phryderon. Dywedodd y Cyfarwyddwr | |

| | | |
|---|---|---|
| | Addysg y cynhelir cyfarfodydd misol ac y gellid codi unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg. Roedd y trafodaethau hefyd yn cynnwys meysydd oedd angen her ychwanegol i ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd grŵp ehangach bob hanner tymor rhwng swyddogion EAS, swyddogion Cynhwysiant, Gwasanaeth Ieuenctid, swyddogion Cyfreithiol a swyddogion o Datblygu Sefydliadol, i gyd yn rhannu gwybodaeth berthnasol i roi cefnogaeth ychwanegol lle mae angen a dal yr EAS i gyfrif.<br><br>Dywedodd cynrychiolydd EAS y caiff cyfathrebu a gwybodaeth ei rannu mewn cyfarfodydd bob hanner tymor rhwng y pump rhanbarth gyda golwg ar rannu strategaeth a gwybodaeth ysgolion unigol i sicrhau y darparwyd cefnogaeth a her briodol i sicrhau bod gwella'n digwydd ar y cyflymder angenrheidiol. Cedwir cofnodion o'r cyfarfodydd a chaiff camau gweithredu eu hadolygu yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at y gwahaniaethau mewn perfformiad ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y strwythur llywodraethiant yn cynnwys cyfarwyddwyr addysg y pump awdurdod lleol i ystyried a herio adroddiadau arolygu EAS.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am osod y 2% o Gyllideb Ysgolion Unigol yn y gronfa gyffredinol wrth gefn, dywedodd yr Aelod Gweithredol Addysg y byddai hyn yn rhan o'r drafodaeth ehangach ar gyllideb y Cyngor.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad ond mynegodd bryderon am ddeilliannau addysgol yn rhanbarthau'r EAS a holodd am y gyfran o Gynghorwyr Her a benodir i ysgolion cynradd ac uwchradd a chefnogaeth mentoriaid ar gyfer ysgolion uwchradd a gofynnodd am ddadansoddiad o'r ffigurau hyn. Dywedodd cynrychiolydd EAS:<br><br>• bod ymrwymiad i feithrin gallu drwy gefnogaeth mentor, a ddangosir gan wario tua £167,000 i ariannu'r rhaglen;<br>• bod cydnabyddiaeth o berfformiad ysgolion uwchradd;<br>• categoreiddio cenedlaethol - mae'r EAS yn gywir ac yn gadarn yn eu categoreiddio gyda chefnogaeth pump awdurdod lleol.<br>• Cynghorwyr Her - bu newidiadau o fewn ysgolion uwchradd oherwydd newidiadau cenedlaethol yn ogystal â phenderfyniadau strategol<br>• bod cryfder sylweddol mewn arweinyddiaeth ysgolion | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynradd.<br><br>Gofynnodd Aelod am ganrannau a niferoedd Ymgynghorwyr Her sy'n cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd. Byddai cynrychiolydd EAS yn rhoi'r rhifau y gofynnwyd amdanynt.<br>Cododd Aelod bryderon am y gostyngiad yn y Gyllideb Ysgolion Unigol, PDG a Phrydau Ysgol am Ddim a theimlai y dylai'r Aelod Gweithredol fod yn ymwybodol o'r mater hwn. Dywedodd Aelod y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried mewn cyfarfod o'r gyllideb yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod Aelodau'n rhoi adborth ac felly wedi ymgysylltu mewn prosesau hunanarfarnu cyn argymell cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 5** | **<u>ADRODDIAD PERFFORMIAD GWASANAETH IEUENCTID 2018-2019</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar berfformiad y Gwasanaeth Ieuenctid ac i Aelodau graffu ar effaith y gwasanaeth.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y posibilrwydd y daw cyllid Ewropeaidd i ben, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid fod risg y byddai hynny'n digwydd. Fodd bynnag mae edrych ar gyfleoedd yn rhan o'i swydd ac ymchwilio llwybrau cyllid tebyg i'r Loteri Fawr a'r Fargen Ddinesig.<br><br>Cododd Aelod bryderon am ddyblygu peth gwaith. Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid fod y grant Cymorth Ieuenctid a geir gan Lywodraeth Cymru yn galluogi'r gwasanaeth i benodi gweithwyr ieuenctid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u hiechyd emosiynol a meddwl. Tanlinellodd y Rheolwr ei fod am ddeall a chydnabod sut y gall gwaith ieuenctid gyfrannu at wella iechyd meddwl mewn pobl ifanc ac nid am ddyblygu gwaith. Penodwyd Cydlynydd Digartrefedd Ieuenctid i edrych yn lleol pa broblemau sy'n digwydd ym Mlaenau Gwent gyda'r ffocws ar y bobl ifanc hynny sydd mewn risg o brofi digartrefedd a phroblemau iechyd meddwl. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ar y gwerth am arian yng nghyswllt prosiect Dug Caeredin, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid fod gan Flaenau Gwent drwydded ar grwpiau tebyg i dimau pêl-droed a rygbi lleol i drefnu eu prosiect Dug Caeredin eu hunain, fodd bynnag mae ysgolion yn dal eu trwydded eu hunan.<br><br>Gofynnodd Aelod tan ba oed mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn cydlynu'r Gwasanaeth Cwnsela 11-18. Mae gofyniad cyfreithiol i gefnogi pobl ifanc hyd at 25 oed a chafodd arian ei neilltuo i gyflawni'r ddyletswydd hon.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Steve Thomas y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 6** | **<u>RHEOLI LLEOEDD DISGYBLION A'R STAD YSGOLION 2018/19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Addysg.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg yr adroddiad sy'n rhoi cyfle i Aelodau graffu ar reolaeth lleoedd disgyblion gyda ffocws ar brosesau a hefyd deilliannau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am broblemau capasiti a rhagamcaniadau disgyblion mewn ysgolion arbennig, dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y byddai'r tîm Cynhwysiant yn edrych ar gapasiti ysgolion arbennig par rhagamcaniadau disgyblion. Bu galw sylweddol am leoedd yn yr ysgol arbennig ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar y ddogfen ymgynghori i ehangu i ddarparu ar gyfer niferoedd disgyblion.<br><br>Gofynnodd yr Aelod am ychwanegu gwybodaeth am yr ysgol arbennig at adroddiadau i Aelodau eu hystyried yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cynhwysir adroddiad yn y flaenraglen gwaith ac y cynhwysir gwybodaeth ar yr ysgol arbennig mewn adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i weithredu fel hyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Holodd Aelod eraill sut y byddai'r tîm Trawsnewid Addysg yn trin lleoedd dros ben. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod gwaith ar gynllun gweithredu i ostwng lleoedd dros ben yn cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion a byddai'r tîm yn edrych ar y rhagamcan o nifer disgyblion ar y tueddiadau cyfredol, ymchwilio trefniadau addysgu, edrych ar ffigurau poblogaeth disgyblion yn y dyfodol a chyflwyno mesurau tymor byr i fonitro nifer disgyblion.<br><br>Mae'r tîm Addysg yn gweithio'n agos gydag ysgolion i fonitro capasiti yn unol â rhagamcaniadau a gyda ffocws ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer yr ysgol neilltuol dan sylw. Byddai'r tîm yn edrych ar hunan-gymorth ar gyfer ysgolion i reoli eu gofodau yn fwy effeithiol.<br><br>Holodd Aelod os yw'r tîm yn derbyn gwybodaeth gan yr Adran Gynllunio yng nghyswllt datblygiadau preswyl newydd. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod y tîm wedi edrych ar ddatblygiadau cyfredol sydd wedi'u cymeradwyo a chynigion ar y gweill ac y byddent yn cynnwys datblygiadau a gymeradwywyd yn rhagamcaniadau'r tîm.<br><br>CYTUNWYD YMHELLACH gan y Pwyllgor i argymell, yn amodol yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor Craffu wedi ystyried yr adroddiad a rhoi sylwadau yn gysylltiedig â gwelliannau y gellir eu gwneud i'r prosesau monitro presennol. | |